



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 1069 (Cy.100)

2010 No. 1069 (W.100)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Labelu Bwyd
(Gwybodaeth Faethol) (Cymru)
(Diwygio) 2010

The Food Labelling (Nutrition
Information) (Wales) (Amendment)
Regulations 2010

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Ebrill 2010 ac y maent yn gymwys i Gymru. Maent yn cywiro gwall argraffyddol yn Atodlen 2 i Reoliadau Labelu Bwyd (Gwybodaeth Faethol) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2705 (Cy.224)).

These Regulations come into force on 20 April 2010 and apply to Wales. They correct a typographical error in Schedule 2 to the Food Labelling (Nutrition Information) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/2705 (W.224)).

2010 Rhif 1069 (Cy.100)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Labelu Bwyd
(Gwybodaeth Faethol) (Cymru)
(Diwygio) 2010**

<i>Gwnaed</i>	<i>25 Mawrth 2010</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>30 Mawrth 2010</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>20 Ebrill 2010</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e), 17(1), (26)(1)(a) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch

-
- (1) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.
- (2) Mae'r swyddogaethau a arferid gynt gan "y Gweinidogion" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol a oedd yn ymwneud, yn eu trefn, â bwyd ac iechyd yng Nghymru ac ag iechyd yn Lloegr, ac, o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau "y Gweinidogion", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a throsglwyddwyd hwy wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Mae'r swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran yr Alban, wedi eu trosglwyddo i Weinidogion yr Alban gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (1998 p. 46) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(2) o Ddeddf 1999.

2010 No. 1069 (W.100)

FOOD, WALES

**The Food Labelling (Nutrition
Information) (Wales) (Amendment)
Regulations 2010**

<i>Made</i>	<i>25 March 2010</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>30 March 2010</i>
<i>Coming into force</i>	<i>20 April 2010</i>

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e), 17(1), 26(1)(a) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1) and now vested in them(2).

In accordance with section 48(4A) of that Act, they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in

-
- (1) 1990 c. 16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), ("the 1999 Act"). Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (1994 c.40), Schedule 6 to the 1999 Act and S.I. 2004/2990.
- (2) Functions formerly exercisable by "the Ministers" (being, in relation to England and Wales and acting jointly, the Minister of Agriculture, Fisheries and Food and the Secretaries of State respectively concerned with health in England and food and health in Wales and, in relation to Scotland, the Secretary of State) are now exercisable in relation to England by the Secretary of State pursuant to paragraph 8 of Schedule 5 to the 1999 Act. Functions of "the Ministers" so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the 1999 Act and thereafter transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32). Those functions so far as exercisable in relation to Scotland were transferred to the Scottish Ministers by section 53 of the Scotland Act 1998 (1998 c. 46) as read with section 40(2) of the 1999 Act.

bwyd(1), cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu llunio a'u gwerthuso.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Gwybodaeth Faethol) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 20 Ebrill 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2009" ("*the 2009 Regulations*") yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Gwybodaeth Faethol) (Cymru) 2009(2).

Diwygio Rheoliadau 2009

3.–(1) Diwygir Rheoliadau 2009 fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (Tabl o'r cofnodion i'w rhoi yn lle'r cofnodion presennol yn Nhabl B (mwynau y caniateir i honiadau gael eu gwneud amdanynt) yn Atodlen 6, Rhan II, i Rheoliadau Labelu Bwyd 1996), yng Ngholofn 2, gyferbyn â "Potassium" yng Ngholofn 1, yn lle "200 mg" rhodder "2000 mg".

matters of food safety(1), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

Title, application and commencement

1.–(1) The title of these Regulations is the Food Labelling (Nutrition Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 20 April 2010.

Interpretation

2. In these Regulations, "the 2009 Regulations" ("*Rheoliadau 2009*") means the Food Labelling (Nutrition Information) (Wales) Regulations 2009(2).

Amendment to the 2009 Regulations

3.–(1) The 2009 Regulations are amended as follows.

(2) In Schedule 2 (Table of entries to be substituted in Table B (minerals in respect of which claims may be made) in Schedule 6, Part II to the Food Labelling Regulations 1996), in Column 2, opposite "Potassium" in Column 1, for "200 mg" substitute "2000 mg".

Gwenda Thomas

Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

25 Mawrth 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Deputy Minister for Social Services, under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

25 March 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 202/2008 (OJ Rhif L60, 5.3.2008, t.17).

(2) O.S 2009/2705 (Cy.224).

(1) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 202/2008 (OJ No. L60, 5.3.2008, p.17).

(2) S.I. 2009/ 2705 (W.224).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 1069 (Cy.100)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Labelu Bwyd
(Gwybodaeth Faethol) (Cymru)
(Diwygio) 2010

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 1069 (W.100)

FOOD, WALES

The Food Labelling (Nutrition
Information) (Wales) (Amendment)
Regulations 2010